

Unig ymgnawdoliad o Dduw

“A daeth y Gair yn gnawd a phreswyllo yn ein plith...” (adn. 14)

Beth am ddarllen Ioan 1:1–18 ac yna myfyrio

Mewn oes o blwraliaeth, rhaid gofyn: Beth sydd angen i ni ei gredu am Iesu Grist i fod yn ffyddlon i'r ffydd Gristnogol? Yr ydym eisoes wedi delio ag un mater – ei ddwyfoldeb (ei gydraddoldeb â Duw) – yn awr yr ydym am edrych ar y ffaith nesaf – ei ymgnawdoliad.

Petawn am ddewis y deg adnod fwyaf pwysig yn yr Ysgrythur, ni fyddai amheuaeth y byddai adnod heddiw yn un ohonynt: ‘Daeth y Gair yn gnawd.’ Yn ôl yr esboniwr William Bartley, “Efallai mai hon yw'r adnod fwyaf bendigedig yn y Testament Newydd.” Nid oes yr un debyg iddi mewn unrhyw grefydd arall. Mae pob ffydd arall yn ceisio dweud rhywbeth wrthym am Dduw ond dweud am athroniaeth, dweud am ymarfer moesol. Mae Cristnogaeth, ar y llaw arall, yn fwy na chrefydd o ddylanwadau a gwerthoedd ac egwyddorion. Mae'n grefydd o ddigwyddiadau real mewn hanes. Daeth Duw i mewn i'r byd yma ar awr benodol mewn hanes a hynny drwy gorff gwyryf, i le arbennig ar y ddaear, a bu iddo fyw yn ein plith. Peidiwn ni byth â gollwng gafael ar y gwirionedd bendigedig hwn. Does dim angen i ni amlhau geiriau oherwydd mae'r geiriau'n amlwg. Mae'r rhai hynny sydd yn gwadu ymgnawdoliad Iesu, ei enedigaeth wryfol, yn gwadu hanfod Cristnogaeth.

Peth arall sydd angen i Gristnogion gredu yw fod yr Arglwydd Iesu wedi byw yn ddibechod. Yn ôl Ioan 8:46, ei eiriau ei hun oedd ‘A oes rhywun sydd yn gallu fy argyhoeddi o bechod?’ Bu rhai oedd yn cerdded gydag ef a rhai oedd yn gwyllo ei fywyd mewn amryw o amgylchiadau yn methu â chanfod dim pechod ynddo. Ei fywyd dibechod oedd y rheswm pam y medrai gario ein pechodau ni. Mae gwrthod credu hyn yn wadiad o wir Gristnogaeth.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Math. 1:18–23; Phil. 2:5–8; 1 Tim. 3:16

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pam oedd y Mab i'w alw yn Emaniwel?
2. Beth yw natur Crist?

Gweddi

O Iesu, rwy'n diolch i ti dy fod ti'r hyn ag yr wyt ti oherwydd dyna sydd yn penderfynu'r cyfan yn achos fy enaid. Rwy'n edrych atat ac yn gwybod nad oes neb tebyg. Ti yw unig Fab Duw, ei unig ymgnawdoliad. Rwyf mor ddiolchgar. Amen.